# Lleihau risg lledaenu haint wrth dynnu dillad/dillad gwely wedi’u defnyddio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â thynnu dillad/dillad gwely wedi'u defnyddio a rhai budr mewn ffordd sy'n lleihau risg halogi a chroes-heintio. Mae'n berthnasol ym mhob amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys lleoliadau cymunedol a chartref, ac mewn lleoliadau gofal ambiwlans.

Nid yw'r safon hon yn ymwneud â thynnu dillad/dillad gwely ymbelydrol nac oddi ar unigolion â chlefydau heintus hysbys, pan fydd angen camau rhagofalus ychwanegol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau nad allant gael eu datrys
4. nodi a lleihau peryglon a risgiau yn y gweithle
5. cyflawni hylendid effeithiol y dwylo a gwisgo cyfarpar diogelu personol yn unol â pholisi/canllawiau cenedlaethol a rhai'r sefydliad
6. casglu ynghyd y cyfarpar a'r cyflenwadau y mae eu hangen i dynnu dillad/dillad gwely a ddefnyddiwyd yn ddiogel a symud y cyfarpar mor agos â phosibl at y man lle byddwch yn ei ddefnyddio
7. pan fyddwch chi'n tynnu dillad/dillad gwely gyda'r unigolyn yn bresennol, byddwch yn esbonio beth fyddwch yn ei wneud mewn ffordd sy'n briodol i'w anghenion cyfathrebu a chyflymder a lefel ei ddealltwriaeth
8. sicrhau nad oes unrhyw eitemau estron, fel eiddo'r unigolyn/defnyddiwr y gwasanaeth, offer miniog a ddefnyddiwyd neu gyfarpar clinigol arall, yn cael eu gwaredu'n ddiofal gyda'r dillad/dillad gwely a ddefnyddiwyd
9. cyn tynnu dillad/dillad gwely, defnyddio tywelion papur i gael gwared ar unrhyw garthion solet neu chŵyd a'u taflu i'r bin gwastraff â'r cod lliw cywir, yn unol â pholisi'r sefydliad
10. tynnu'r dillad/dillad gwely a ddefnyddiwyd, gan osgoi ysgwyd, gwaredu unrhyw hylifau'r corff/celloedd y croen, a chysylltiad â dillad, y llawr neu arwynebau eraill, a gosod pob eitem yn y cynheilydd dynodedig, gan ofalu peidio â lapio dillad/dillad gwely gyda'i gilydd, peidio â'u hailgyffwrdd a pheidio â gorlenwi'r cynheilydd
11. gosod dillad/dillad gwely budr, a rhai a ddefnyddiwyd, yn y bagiau lliw/cynheilydd priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu storio'n gywir yn unol â pholisi'r sefydliad
12. 

pan fydd cysylltiad wrth dynnu'r dillad/dillad gwely:

13. 

gosod unrhyw gyfarpar diogelu personol tafladwy yn y bin gwastraff priodol yn syth ar ôl ei ddefnyddio a chyflawni hylendid effeithiol yr dwylo yn ddi-oed

14. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. y peryglon a'r risgiau a allai godi wrth i chi gyflawni eich rôl a sut y gallwch eu lleihau
7. y gadwyn heintio
8. sut i gael at gyfleusterau ar gyfer hylendid y dwylo
9. sut i roi cymorth cyntaf a chael at adnoddau cymorth cyntaf a chefnogaeth
10. technegau effeithiol ar gyfer cynnal hylendid y dwylo
11. y cyfarpar diogelu personol priodol i'w ddefnyddio wrth gyffwrdd â dillad/dillad gwely
12. sut i wisgo, tynnu a chael gwared ar gyfarpar diogelu personol yn ddiogel
13. sut i ddidoli categorïau dillad/dillad gwely budr, a rhai a ddefnyddiwyd, a'u rhoi mewn bagiau
14. y bagiau a'r biniau gwastraff â chodau lliw gwahanol, a'r defnydd cywir o bob un ohonynt
15. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

SFHIPC9

Lleihau risg lledaenu haint wrth dynnu dillad/dillad gwely wedi'u defnyddio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHIPC9 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr iechyd proffesiynol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, Lechyd, Nyrsio a Phynciau a Galwedigaethau Perthynol, Gwasanaethau Gofal Iechyd a Gwasanaethau Personol Cysylltiedig |
| **Cyfres/Set** | Atal a rheoli heintiau |
| **Geiriau Allweddol** | Defnyddio, dillad, dillad gwely, risg, haint, atal |